Cynllun Datblygu Lleol
Casnewydd

Strategaeth a Ffefrir: Papur Cefndir yr Amgylchedd Hanesyddol

Hydref 2023



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales
Llofnodydd y Siarter | Charter Signatory

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Cynnwys

Cyflwyniad 3
Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol 4
Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 4
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol 6
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 6
Y Cyd-destun Lleol 6
Adroddiad Monitro Blynyddol 7
Asesu ac Argymhellion 7
Polisi Arfaethedig 7

1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn darparu polisi strategol SP9 Cadwraeth yr Amgylchedd Naturiol, Hanesyddol ac Adeiledig. Mae SP9 yn datgan:

"Ceisir cadw, gwella a rheoli safleoedd cydnabyddedig yn yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ym mhob cais."

1.1.2 Mae SP9 yn ceisio diogelu ystod o ddynodiadau amgylcheddol a hanesyddol a safleoedd gwarchodedig. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn safleoedd, adeiladau neu dir sy'n elwa ar gael eu gwarchod drwy'r fframwaith cyfreithiol.

1.1.3 Nododd yr Adroddiad Adolygu fod monitro blynyddol wedi amlygu pryderon lle rhoddwyd caniatâd cynllunio er bod gwrthwynebiadau heb eu hateb mewn perthynas â'r effaith ar Adeiladau Rhestredig. Amlinellodd yr Adroddiad Adolygiad yr angen am ymchwiliad pellach ynghylch effeithiolrwydd SP9 a chyfeirio at ganllawiau mwy cyfoes wedi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

1.1.4 Mae gwarchod a gwella amgylchedd hanesyddol Casnewydd yn gysylltiedig â'r materion canlynol a'r amcanion sy'n dod i'r amlwg o'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN):

Materion
3. Angen amddiffyn dynodiadau amgylcheddol a hanesyddol cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol. 12. Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd drwy'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys trwy ddiwylliant, twristiaeth ac adfywio. Un her yw'r angen am fuddsoddiad mewn rheoli, amddiffyn a gwella'r rhain. 41. Mynd i'r afael ag anghenion dinas amlieithog a darparu cyfleoedd i wella a gwarchod y Gymraeg. Gallai'r cyfleoedd hyn gynnwys darparu mynediad i wasanaethau cymunedol ac addysgol allweddol, cartrefi a swyddi o ansawdd da, a hyrwyddo treftadaeth Cymru drwy warchod ac adfer ardaloedd/nodweddion diwylliannol allweddol. 42. Cefnogi cadwraeth a gwella adeiladau a strwythurau hanesyddol er budd pensaernïol a hanesyddol oherwydd eu bod yn ffynonellau o falchder ac yn rhan o hunaniaeth ddiwylliannol. Mae hyn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth ac asedau treftadaeth eraill a ddiffiniwyd yn lleol sy'n cynorthwyo ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o le. 43. Sicrhau cadwraeth a gwella gweddillion archeolegol, ac ardaloedd sy'n archeolegol sensitif, a chefnogi'r gwaith o gynnal ymchwiliadau archeolegol.
Amcanion
8. Amgylchedd Hanesyddol Diogelu, gwella a gwireddu gwerth adnoddau treftadaeth Casnewydd, drwy fuddsoddi, dehongli a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny a ddarperir gan yr amgylchedd hanesyddol ac asedau archeolegol nodedig.

2 Deddfwriaeth a Pholisi Cenedlaethol

2.1 Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

2.1.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn darparu adran 6.1 ar yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae'n diffinio'r amgylchedd hanesyddol fel un sy'n cynnwys yr holl elfennau ffisegol sydd wedi goroesi o weithgarwch dyn yn y gorffennol ac yn dangos sut mae cenedlaethau'r gorffennol wedi ffurfio'r byd. Mae PPC yn pwysleisio gwerth diwylliannol yr amgylchedd hanesyddol ledled Cymru. Mae gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, a'r asedau hanesyddol sy'n ei ffurfio, yn ddarostyngedig i fframwaith deddfwriaethol. Mae PCC yn amlinellu'r canlynol:

"Rhaid i'r system gynllunio ystyried amcanion Llywodraeth Cymru i warchod, diogelu, hyrwyddo a gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer lles cyffredinol cenedlaethau presennol a'r dyfodol."

2.1.2 Mae PCC yn nodi cyfrifoldeb cyffredin am yr amgylchedd hanesyddol, gan nodi ym mharagraff 6.1.8:

"Cyfrifoldeb pawb sydd â buddiant yn y system gynllunio, gan gynnwys awdurdodau cynllunio, ymgeiswyr, datblygwyr a chymunedau, yw gofalu'n briodol am yr amgylchedd hanesyddol yn eu hardal. Mae'r gwaith o warchod, cadw a gwella asedau hanesyddol yn fwyaf effeithiol pan mae'n cael ei ystyried ar y cam cynharaf o baratoi cynlluniau neu wrth ddylunio cynigion newydd."

2.1.3 Mae PPC yn darparu rhagdybiaeth gyffredinol o blaid gwarchod a gwella Adeiladau Rhestredig. Ar gyfer unrhyw gynnig datblygu sy'n effeithio ar Adeilad Rhestredig neu ei leoliad, y brif ystyriaeth berthnasol, yn ôl y fframwaith cyfreithiol, yw rhoi ystyriaeth arbennig i ddymunoldeb cadwraeth. Mae hyn yn cynnwys cydnabod yr angen am hyblygrwydd drwy gynllunio a rheolaethau Adeiladau Rhestredig, pan fydd yn rhaid ystyried defnyddiau newydd i sicrhau bod adeiladau'n goroesi. Mae dymchwel adeilad rhestredig yn annerbyniol yn y rhan fwyaf o achosion.

2.1.4 Mae PCC yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau cynllunio wrth nodi a rheoli Ardaloedd Cadwraeth. Mae rhagdybiaeth gref yn erbyn datblygiad a allai beryglu cymeriad ac ymddangosiad Ardaloedd Cadwraeth. Fodd bynnag, gallai datblygiad fod yn dderbyniol os yw er budd y cyhoedd, yn arwain at warchod neu wella adeilad, neu os gellir lliniaru effeithiau'r datblygiad yn briodol.

2.1.5 Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau cynllunio hefyd i ddiogelu dynodiadau eraill megis Parciau a Gerddi Hanesyddol, Tirweddau Hanesyddol a Safleoedd Treftadaeth y Byd.

2.1.6 Ym mharagraff 6.1.29, mae PCC yn amlinellu'r gofynion ar gyfer Cynlluniau Datblygu, gan nodi:

"Dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisïau penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac yn ymwneud yn unig â'r elfennau hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol.

Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd hanesyddol adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes, ac ni ddylent gynnwys datganiadau neu gynigion manwl ar gyfer ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.

Asedau hanesyddol o bwys lleol – gall awdurdodau cynllunio ddatblygu rhestrau o asedau hanesyddol sydd o ddiddordeb arbennig yn lleol, nad ydynt yn cael eu gwarchod yn statudol, ond sy'n gwneud cyfraniad pwysig at natur unigryw'r ardal leol ac a allai gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd. Pan fydd awdurdod cynllunio yn dewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, rhaid cynnwys polisïau ar gyfer eu gwarchod a'u gwella yn y cynllun datblygu"

2.1.7 Mae PCC hefyd yn mynd i'r afael ag archaeoleg a galluogi datblygu.

2.2 Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

2.2.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol 24 (NCT 24) a chanllawiau arferion gorau Cadw yn rhoi arweiniad manwl ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir drwy'r system gynllunio ystyried yn llawn yr effaith ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r rhain yn darparu rhagor o wybodaeth ar sut i ystyried effeithiau cynigion ar yr amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys gofynion ar gyfer Asesu a Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth.

2.3 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

2.3.1 Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae tair prif nod i'r Ddeddf: rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; gwella'r ffordd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig; mae'n gwella'r ffordd y rheolir yr amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy; ac yn cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ar yr amgylchedd hanesyddol.

2.4 Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

2.4.1 Yn fwy diweddar, derbyniodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Mae hyn yn ffurfio deddfwriaeth gyfunol, gan wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwarchod a rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn effeithiol i gefnogi lles Cymru a chymunedau Cymru. Disgwylir i'r Ddeddf ddod i rym drwy is-ddeddfwriaeth ddiwedd 2024. Yn ymarferol, bydd y Ddeddf yn atgyfnerthu deddfiadau sydd wedi'u cynnwys yn neu o dan:

- Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953
- Rhannau 1 a 3 Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979
- Rhannau 14 a 15 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Rhan 5 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

3 Y Cyd-destun Lleol

3.1.1 Mae gan Gasnewydd ystod eang o adeiladau a safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol. Mae yma dros 4000 o Adeiladau Rhestredig, 15 Ardal Gadwraeth, 11 Parc a Gardd Hanesyddol, 67 Heneb Gofrestredig, 4 Ardal Archeolegol Sensitif a thros 50 cilometr sgwâr o dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Ategir y safleoedd hyn, a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan amrywiaeth o adeiladau a safleoedd sydd o bwysigrwydd lleol, ac mae'r CDLl hwn yn ceisio'u diogelu. Ceisir amddiffyn, gwarchod, diogelu, cadw a gwella asedau treftadaeth, a phan gynigir datblygiad newydd sy'n effeithio ar yr adeilad, y safle neu'r lleoliad, dylai fod o'r radd flaenaf.

3.1.2 Adolygwyd Ardaloedd Cadwraeth yng Nghasnewydd yn ddiweddar. Cynhaliwyd yr adolygiad o'r rhain trwy gyfres o Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth yn 2019.

3.2 Adroddiad Monitro Blynyddol

3.2.1 Mae Polisi SP9 yn cael ei fonitro ar hyn o bryd drwy nifer o ddangosyddion sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol a hanesyddol. Mae'n awgrymu i ddechrau bod cwmpas y polisi yn eang, o ystyried ei berthnasedd i wahanol fathau o faterion technegol. Mae monitro blynyddol wedi asesu nifer y cynigion sydd wedi'u cymeradwyo lle cafwyd gwrthwynebiad gan arbenigwyr perthnasol. Mae'r tair blynedd diwethaf wedi canfod bod ceisiadau'n aml yn cael eu cymeradwyo er gwaethaf gwrthwynebiadau gan gynghorwyr treftadaeth ac mewn rhai achosion Cyfoeth Naturiol Cymru, er nad yw'r rhain ar sail amgylchedd hanesyddol. Mae angen mynd i'r afael â dehongli Polisi SP9 i sicrhau y gellir goresgyn pryderon technegol. Er gwaethaf hyn, mae'n bosibl y bydd angen egluro rôl a chwmpas ceisiadau cynllunio a Chaniatâd Adeilad Rhestredig cysylltiedig.

4 Asesu ac Argymhellion

4.1.1 Mae cyfle i ystyried pwysigrwydd yr amgylchedd hanesyddol a'r dynodiadau cysylltiedig ar wahân i SP9. Un dull a ystyriwyd yw mynd i'r afael â'r cyd-destun newidiol o ran ecoleg a bioamrywiaeth drwy bolisi annibynnol a datblygu SP9 fel polisi amgylchedd hanesyddol, gan ddileu cyfeiriad at yr amgylchedd naturiol. Argymhellir trwy ddefnyddio'r dull hwn y bydd polisi cyffredinol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd hanesyddol yn gallu canolbwyntio'n well ar fynd i'r afael ag effeithiau ar asedau rhestredig a heb eu rhestru a bydd yn gallu cefnogi'r adolygiad o bolisïau'r amgylchedd hanesyddol. Gellid mireinio geiriad y polisi hwn ymhellach mewn ymgynghoriad â Cadw a swyddogion achos rheoli datblygu i ystyried sut bydd yn cael ei weithredu'n ymarferol. Fodd bynnag, mae'r adolygiad o bolisïau rheoli datblygu yn debygol o ddarparu penodoldeb i gefnogi gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol yng Nghasnewydd ar sail ei werth diwylliannol.

4.1.2 Mae angen ystyried sut y diffinnir asedau heb eu rhestru a sut i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â dymchwel trwy Hysbysiad Blaenorol. Fodd bynnag, dylai'r polisi gyfeirio at y rhain, gan gydnabod gwerth cyfoethog amgylchedd adeiledig Casnewydd.

5 Polisi Arfaethedig

5.1.1 Cynigir bwrw ymlaen â'r geiriad polisi canlynol:

Cadwraeth yr Amgylchedd Hanesyddol

Bydd angen i bob cynnig sicrhau ei fod yn gwarchod, cadw a/neu wella amgylchedd hanesyddol cyfoethog Casnewydd, gan gynnwys asedau rhestredig a heb eu rhestru.